**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mercher 22 Medi 2021, 11.00 – 13.00**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn Bresennol</u>** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Amelia John | Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Andy Robinson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Michael Evans | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Edward Hunt | Cynllunio Strategol, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Siân Sanders | Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Andrew Gregory (Eitem 3) | Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC |
| Gareth Harcombe (Eitem 3) | Rheolwr Ynni a Chynaliadwyedd |
| Nicola Pitman (Eitem 4) | Arweinydd Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn, CC |
| Mike Tate (Eitem 5) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg CC |
| Lee Patterson (Eitem 5) | Cydlynydd Dinas sy'n Dda i Blant, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Nodwyd y bydd Amelia John yn cymryd lle Jo Salway fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar BGC Caerdydd. | |
| 2 | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Cymeradwywyd cofnodion ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2021. | |
| 3. | **Caerdydd Un Blaned**<br><br>Andrew Gregory a Gareth Harcombe yn cyflwyno:<br>• diweddariad ar Strategaeth Caerdydd Un Blaned Cyngor Caerdydd, Cyfrifeg Carbon<br>• prosiectau cydweithio cychwynnol a nodwyd gan y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymiadau arfaethedig a chamau cychwynnol ar gyfer y BGC<br><br>Amlygwyd y byddai'n well gan rai sefydliadau weithredu dros ddaearyddiaeth ehangach o ystyried maes eu cyfrifoldebau. Cadarnhawyd bod sgyrsiau rhanbarthol yn digwydd ar draws y ddinas-ranbarth trwy grwpiau hinsawdd ac ynni priodol.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Cyflwyniad Cyfrifeg Carbon i'w rannu gydag aelodau BGC<br>• Pob aelod o'r BGC i nodi Pencampwr ar lefel uwch reolwyr (i adrodd i'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd)<br>• Pob aelod o'r BGC i ystyried y prosiectau blaenoriaeth a'r gefnogaeth/ymrwymiad y gall ei sefydliad ei roi<br>• Cynnydd i'w adrodd i'r BGC yn flynyddol | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth<br>Pawb<br><br>Pawb<br><br>Andrew Gregory/ Gareth Harcombe |
| 4. | **Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn**<br><br>Rhoddodd Nicola Pitman drosolwg o gyflwyniad Caerdydd i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer dinasoedd sy'n dda i bobl hŷn cyn iddo gael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ym mis Hydref.<br><br>Amlygwyd bod Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ar gyfer Caerdydd yn cael ei hadolygu a'i halinio i gysylltu â'r ymagwedd sy'n dda i bobl hŷn<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Diweddariadau Dinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn pellach i'w dwyn i'r BGC yn y dyfodol | <br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 5. | **Dinas sy'n Dda i Blant – llwybr i achrediad**<br><br>Rhoddodd Mike Tate a Lee Patterson drosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yma tuag at achrediad sy'n Dda i Blant a'r camau nesaf.<br><br>Y camau nesaf i gynnwys adnewyddu'r Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant (2018) a'r trefniadau llywodraethiant. Nodwyd y dylai'r strategaeth newydd gyd-fynd â strategaeth Caerdydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cyfranogiad pobl ifanc yng nghyfarfodydd BGC Caerdydd. Tynnodd rhai aelodau BGC sylw at y ffafrio ymgysylltu â ffocws gyda phobl ifanc (e.e. ymgysylltu ar Gynllun Llesiant y BGC a gwaith Dinas sy'n Dda i Blant) gan fod trafodaethau ar lefel y BGC yn addas ar gyfer swyddogion gweithredol neu eu cynrychiolwyr dirprwyedig. Tynnwyd sylw at yr angen i gysoni ymgysylltu/cyfranogiad ar draws y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Nodwyd y bydd arolygiad Estyn sydd ar y gweill yn ystyried gweithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd drwy waith Dinas sy'n Dda i Blant.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Cyfleoedd i gael eu harchwilio ar gyfer cynnwys pobl ifanc yng ngwaith BGC Caerdydd, gydag opsiynau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r BGC | Liz Patterson / Ysgrifenyddiaeth |
| 6. | **Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol**<br><br>Rhoddodd Siân Sanders y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys:<br>• Datblygu dangosfwrdd gwybodaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Ailsefydlu ffoaduriaid Afghanistan<br>• Cynnydd wnaed ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig<br><br>Codwyd mynd i'r afael â beiciau modur oddi ar y ffordd. Mae'r Heddlu a'r Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn. | |
| **7**. | **Adolygiad Blaenoriaethau a Llywodraethiant**<br><br>Cafodd Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd 2020/21 ei gymeradwyo gan y BGC.<br><br>Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid BGC i nodi'r setiau data craidd a'r tueddiadau a fydd yn llywio Asesiad Llesiant diweddaraf y BGC.<br><br>Cytunwyd yng nghyfarfod y BGC ar 26 Gorffennaf, y byddai aelodau BGC yn cyfarfod â Gareth Newell ar sail 1 i 1 i gyfrannu at adolygiad o flaenoriaethau a llywodraethiant i sicrhau bod trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith ar gyfer adfer ac adnewyddu a chyflawni Cynllun Llesiant Lleol diwygiedig y BGC. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Bydd crynodeb lefel uchel o'r adborth a gafwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad y Cyngor, Ddydd Llun 11 Hydref.<br>**Cam Gweithredu:**<br>• Adroddiad ar flaenoriaethau a llywodraethiant y BGC i'w hystyried mewn cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol. | Gareth Newell/ Ysgrifenyddiaeth |
| **8.** | **Unrhyw Fater Arall a Rhagolwg**<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Cyfarfod ychwanegol i'w gynnal i ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus cyn y BGC nesaf ym mis Tachwedd.<br>• Gofynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Alun Michael am drafodaeth yn y dyfodol i ystyried pwysau ar wasanaethau ar draws aelodaeth y BGC. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br>• 10 Tachwedd 2021<br>• 30 Tachwedd 2021 | |